

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 24 Chwefror 2015

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, G. C. Jones, A. Mummery, H. Huws, A. Thomas, E. Parry, G. Parry, A. Williams, J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: B. Jones, Meryn Jones, Meirion Jones, D. Williams, Anwen Le Cras (Swyddog Cyllid),

2. Datganiadau Diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

3. Cyfrifon mis Chwefror 2015

- 3.1 Cyfrifon Cyngor Bro - Nodwyd un cywirdeb i'r ad-daliad i'r clerc am gostau post. Wedi cywiro J. Roberts yn cynnig, A. Williams yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir
- 3.2 Cyfrifon y Fynwent - J. Roberts yn cynnig, A. Williams yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir
- 3.3 Cyfrifon y Neuadd Goffa - A. Williams yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir
- 3.4 Nodwyd fod sawl tâl dal yn daladwy i'r Cyngor Bro. Cytunwyd pawb y dylid cael cyfarfod gyda'r Pwyllgor Cyllid a'r Swyddog Cyllid I gael diweddariad ar y sefyllfa.

4. Materion y Cyngor Sir

- 4.1 A. Mummery yn nodi ei bod yn edrych yn debyg mai codi 4.5% fydd trethi ar Ynys Môn.
- 4.2 A. Mummery yn nodi fod dŵr yn sefyll ar y palmant wrth Benucheldre. Cyngor Sir wedi cadarnhau fod gwaith angen ei wneud ond nid oes arian i'w wneud.

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 27 Ionawr 2015

- 5.1
- 5.2 Wedi cywiriadau J. Roberts yn cynnig, A. Williams yn eilio, derbyniwyd fel y rhai cywir.

6. Materion yn codi

- 6.1 Tŷ Mawr - A. Mummery wedi rhoi ei bryder i staff Rhun Ap Iorwerth ond heb gael ymateb hyd yn hyn.
- 6.2 CCTV - Nodwyd fod dipyn o gymhlethdod gyda'r ymgyrch ar hyn o bryd, cytunwyd i beidio ei ddilyn i fyny ar hyn o bryd.
- 6.3 Twr Marcwis - Dim diweddariad hyd yn hyn. Clerc am gael diweddariad gan Jones Peckover.
- 6.4 Plac ar dy Kyffin Williams - Nodwyd fod angen caniatâd gan berchennog y tŷ i osod plac. A. Mummery am ddilyn y mater ymlaen gyda'r Cyngor Sir.
- 6.5 Bin tu allan i'r Neuadd Goffa - Bin wedi ei symud o'r Neuadd Goffa ond ddim i'w weld yn y parc. Clerc I ddilyn i fyny gyda Chyngor Sir Ynys Môn
- 6.6 Paentio'r Neuadd Goffa - Emllyn Parry wedi cychwyn y gwaith ac yn disgwyl i orffen o fewn wythnos
- 6.7 Meinciau - Y fainc newydd wedi ei archebu ac yn cael ei danfon wythnos yma. Alun Jones am dderbyn yr archeb a'r Clerc am ofyn i Andre Le Cras i'w gosod.
- 6.8 Maes Parcio - Clerc wedi gyrru nodyn atgoffa at Hogans a R. G. Hire I ofyn iddynt am eu prisiau. Y ddau gwmni am ei gyrru cyn Cyfarfod nesaf y Cyngor Bro.
- 6.9 Grid Cenedlaethol - H. Huws am gael diweddariad am bryd fydd y cyfarfod nesaf yn digwydd.
- 6.10 Bwrdd Iechyd - Disgwyl ymateb gan GIG a Linda West i lythyr y Cyngor Bro.
- 6.11 Llwybr beicio - Clerc I gysylltu gydag Wyn Rhys Jones syn y Cyngor Sir am gadarnhad o bwy sydd yn gyfrifol am ei gynnal a chadw

7. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae 10 Chwefror 2015

- 7.1 Bethan Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio, derbyniwyd fel y rhai cywir.

8. Materion yn codi

8.1 Cais Yswiriant y Pafiliwn - Clerc am ddilyn i fyny a rhoi pwysau i gwblhau'r mater

8.2 Trim Trail - Bwrdd Iechyd heb weithredu ar ôl cyfarfod aelodau'r Cyngor Bro. Clerc I roi pwysau arnynt i wneud.

8.3 Maes amlbwrpas - Allweddi sydd gan A. Jones ddim yn gweithio i'r cwpwrdd. Clerc i ofyn I Anwen Le Cras oes ganddi hi gorriad.

8.4 Giât I'r gors - Cytunwyd y dylid y Cyngor Bro ysgrifennu at ysgrifennydd y clwb iau yn eu cadarnhau nid yw'n dderbyniol bod ceir yn defnyddio'r giât fel mynedfa, ac yn gofyn iddynt sicrhau eu bod yn cloi'r giât.

8.5 Sylwad Mervyn Jones - Nodwyd mai'r drefn fel rheol yw bod y gyllideb yn cael ei gosod yn Ionawr bob blwyddyn, felly fydd angen cais am arian cyn hynny i'w rhoi i'r Pwyllgor Cyllid.

9. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 10 Chwefror 2015

9.1 Nodwyd nad oedd yno gworwm yn bresennol felly methwyd a chynnal y cyfarfod. J. Roberts yn nodi y dylid pawb sydd yn methu a mynychu'r cyfarfod ymddiheuro o flaen llaw.

10. Materion yn codi

10.1 Nid oedd unrhyw fater yn codi gan nad oedd y cyfarfod wedi mynd yn ei flaen, ond nodwyd y sefyllfa bresennol gyda gwneud cais am y grantiau. Holiadur i drigolion a holiadur a llythyr eglurhaol ddefnyddwyr a defnyddwyr arfaethedig wedi ei baratoi ac yn barod i'w dosbarthu.

11 Cynllun datblygu lleol ar y cyd Gwynedd a Môn (2011-2026)

11.1 Nodwyd fod saith adran wedi ei adnabod yn Llanfairpwll fel ardal datblygu tai.

11.2 Cytunwyd y dylai'r aelodau edrych ar y cynllun yn fwy manwl cyn cyflwyno ymateb. Nodwyd fod y dyddiad cau am sylwadau cyn dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Bro, felly cytunwyd y dylid yr aelodau gyfuno unrhyw sylwadau a bod y Cadeirydd, Is-gadeirydd a chlerc yn drafod ymateb y Cyngor Bro.

12. Ceisiadau Cynllunio

12.1 31C381/DEL - Cais o Dan Adran 73 I dynnu amod (01) o ganiatâd cynllunio 31C381B er mwyn cadw'r gweithdy gwneud dodrefn yn barhaol yn Dryll y Bowl, Lon Refail, Llanfairpwll - Dim sylwad

13. Gohebiaeth

13.1 Llythyr Cyngor Tref Biwmares - Cytunwyd I dderbyn y wybodaeth

13.2 Llywodraeth Cymru - Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55 - Cytunwyd I dderbyn y wybodaeth

14. Unrhyw Fater Arall

14.1 Er gwybodaeth rhoddwyd copi o AGM y clwb bowlio i'r Cyngor Bro

14.2 J. Roberts yn nodi llwybr ger Trem Eryri a Stad y Gwyngyll angen sylw. Cyfrifoldeb y Cyngor Sir.

14.3 A. Williams yn nodi fod trailer gwartheg wedi ei barcio ym maes parcio'r fynwent. Clerc I ofyn I Gyngor Sir Ynys Môn I ofyn i denant y tir pori i beidio â pharcio'r trailer yno.

14.4 E. Parry yn nodi bod y gwydr ar y drysau cypyrddau yn beryglus. Cytunwyd y dylid eu tynnu i lawr. Hefyd nodwyd bod un o'r ffenestri'r Neuadd wedi torri ac angen sylw.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 31 Mawrth 2015 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd (Cadeirydd)Dyddiad